------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Mawrth 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 267(v6)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel swyddog cyfreithiol) – Wedi ei ohirio o ddydd Mawrth 10 Mawrth 2020

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**David Rees (Aberafan):** Yn dilyn y cyhoeddiad ddoe gan Tata Steel ynglŷn â nifer y swyddi a fydd yn cael eu colli yn y DU, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith a gaiff y colledion hyn yng Nghymru, ac yn arbennig ar y ffatri ym Mhort Talbot?

## 6 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 7 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

(5 munud)

**NDM7295** – Elin Jones

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 12 – Pleidleisio drwy Ddirprwy' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mawrth 2020.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 12 a gwneud newidiadau canlyniadol i Reol Sefydlog 17, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi bod y newidiadau hyn yn rhai dros dro, ac y byddant yn peidio â bod yn weithredol ar 6 Ebrill 2021.

## 8 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Archwiliad Cyfle Cyfartal

(30 munud)

**NDM7247** – Helen Mary Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i ddarparu archwiliad cyfle cyfartal ar gyfer cwmnïau sy'n cael grantiau Llywodraeth Cymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) gwella ac annog cyfle cyfartal yn y sector preifat yng Nghymru; a

b) adeiladu ar ganfyddiadau Gwaith Teg Cymru: Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg.

Gwaith Teg Cymru: Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg

## 9 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Diagnosis Cynnar o Ganser

(60 munud)

**NDM7238** – David Rees

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod diagnosis cynnar o ganser yn gwella cyfleoedd goroesi.

2. Yn nodi bod Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell y dylai pob cenedl gael strategaeth ar ganser.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei chynllun cyflawni newydd ar gyfer canser yn cynnwys mwy o bwyslais ar ddiagnosis cynharach i gleifion ac iddo fod ar waith pan ddaw'r cynllun presennol i ben yn 2020.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar raglenni sgrinio am ganser.

Cyd-gyflwynwyr

Angela Burns

Dai Lloyd

Mike Hedges

Jayne Bryant

Caroline Jones

## 10 Dadl Plaid Cymru – Gwasanaeth damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

(30 munud)

**NDM7296** – Siân Gwenllian

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y GIG.

2. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi cadw gwasanaeth damweiniau ac achosion brys 24 awr a arweinir gan feddygon ymgynghorol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

3. Yn cydnabod bod recriwtio yn allweddol i gadw gwasanaeth damweiniau ac achosion brys a arweinir gan feddygon ymgynghorol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

4. Er mwyn helpu recriwtio, yn galw ar y Gweinidog Iechyd i ddiddymu'r penderfyniad a wnaed yn 2014 i ddileu'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys a arweinir gan feddygon ymgynghorol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg fel rhan o Raglen De Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi:

a) yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mai'r byrddau iechyd lleol perthnasol yng Nghymru sydd â'r cyfrifoldeb statudol am ddarparu gwasanaethau'r GIG mewn ardaloedd daearyddol yng Nghymru;

b) bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wrthi'n adolygu ei ddarpariaeth ar gyfer y gwasanaethau damweiniau ac achosion brys hynny yn ardal y bwrdd iechyd sy'n benodol i Ysbyty Brenhinol Morgannwg;

c) bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wrthi'n ystyried nifer o opsiynau yn ymwneud â'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd;

d) bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cynnal dadansoddiadau data, modelu a recriwtio, ac yn ymgysylltu â'r staff a’r cyhoedd er mwyn cynorthwyo penderfyniad gan ei fwrdd;

e) nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â dyfodol y ddarpariaeth damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Saesneg yn unig)

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1, ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Chwefror 2020 mewn cysylltiad â chadw gwasanaethau brys 24 awr o dan arweiniad ymgyngorydd meddygol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

**Gwelliant 3** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â dysgu gwersi o ymarferion ailstrwythuro blaenorol byrddau iechyd ac nad yw wedi sicrhau bod byrddau iechyd hefyd wedi cadw at yr egwyddorion ar ymgysylltu cyhoeddus sydd wedi’u diogelu yn 'Cymru Iachach'.

Cymru Iachach - Llywodraeth Cymru

**Gwelliant 4** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn ymgynghori â'i gymunedau mewn modd amserol a chynhwysol.

**Gwelliant 5** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder, dystiolaeth lafar ddiweddar Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 27 Chwefror 2020 nad oedd y Bwrdd wedi bod wrthi'n recriwtio ymgyngynghorwyr meddygol adran achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

## 11 Dadl Plaid Cymru - Darllediadau Gemau Rygbi'r Chwe Gwlad

(30 munud)

**NDM7297** – Siân Gwenllian

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd chwaraeon o bob math i hunaniaeth ddiwylliannol a sifig Cymru.

2. Yn credu y dylai’r gallu i fwynhau chwaraeon fod mor hygyrch â phosib i’r ystod ehangaf o boblogaeth ein cenedl.

3. Yn pryderu am yr adroddiadau y bydd y darllediadau o gemau rygbi’r chwe gwlad ond ar gael i’w gwylio ar sail talu-wrth-wylio yn y dyfodol.

4. Yn credu bod mynediad at ddarllediadau rygbi cenedlaethol yn allweddol i sicrhau bod pobl ifanc yn cyfranogi mewn rygbi llawr gwlad.

5. Yn credu y dylai darllediadau gemau rygbi chwe gwlad Cymru barhau i fod ar gael i’w gwylio am ddim i bawb ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau hyn.

## 12 Cyfnod pleidleisio

## 13 Dadl Fer

**NDM7294**– Vikki Howells

Tynged y meysydd glo: effaith datganoli ar gymunedau'r meysydd glo; yr heriau sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd a rhai cwestiynau ynghylch eu ffyniant yn y dyfodol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2020

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 04/03/2020 i'w hateb ar 11/03/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**1** OAQ55228

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl amenedigol i fenywod yn Arfon?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**2** OAQ55225

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am roi'r Cynllun Gweithredu Coronafeirws ar waith i ddiogelu dinasyddion Islwyn?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**3** OAQ55201

**(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella mynediad at gymorth iechyd i gyn-filwyr?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

**4** OAQ55219

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd a wnaed o ran recriwtio prif weithredwr newydd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**5** OAQ55216

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am barodrwydd adrannau damweiniau ac achosion brys yng Ngorllewin De Cymru i fynd i'r afael â coronafeirws?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

**6** OAQ55199

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau safonau gofal uchel yn GIG Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

**7** OAQ55232

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymorth ariannol i ddioddefwyr o Gymru yn y sgandal gwaed halogedig?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**8** OAQ55197

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwella gwasanaethau iechyd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda dros y 12 mis nesaf?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**9** OAQ55221

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau arennol yng Nghymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**10** OAQ55230

**(e)**

Pa fesurau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran iechyd plant yng Nghymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**11** OAQ55224

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl sy'n byw gydag anhwylderau bwyta?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**12** OAQ55210

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r gwasanaeth iechyd dros y flwyddyn sydd i ddod?

## Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

1 OAQ55207

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraddau treth incwm Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

2 OAQ55227

**(w)**

Pa drafodaeth y mae'r Gweinidog wedi ei gynnal gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar sut gall Llywodraeth Cymru helpu ariannu cynlluniau i leihau y nifer o dai gwag yn y gogledd?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

3 OAQ55202

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch mynediad at gymorth ariannol brys i drigolion y mae'r llifogydd diweddar wedi effeithio arnynt?

**David Rees** *Aberafan*

4 OAQ55234

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Changhellor y DU cyn cyhoeddi cyllideb Llywodraeth y DU?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

5 OAQ55204

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw gyllid ychwanegol a fydd yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru i ymdrin â'r difrod a achoswyd gan storm Ciara a storm Dennis?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OAQ55212

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ddatganiad cyllideb Canghellor y DU?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

7 OAQ55200

Tynnwyd yn ôl

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwerth am arian yn ei chyllideb flynyddol?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

8 OAQ55192

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu proses flaenoriaethu cyllideb Llywodraeth Cymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

9 OAQ55233

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

10 OAQ55195

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o werth am arian unrhyw fenthyciadau a ddarperir i gyrff allanol?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

11 OAQ55194

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

12 OAQ55209

Tynnwyd yn ôl

**(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ariannu'r gwaith o hyrwyddo cymunedau caredicach wrth ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru?

## Cwnsler Cyffredinol

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OAQ55206

**(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch effaith gyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar ddileu pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod (CEDAW)?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

2 OAQ55203

**(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r posibilrwydd o sefydlu llysoedd cyffuriau ac alcohol i deuluoedd yng Nghymru?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**3** OAQ55205

**(e)**

Pa sylwadau cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi'r apêl Backto60 ynghylch y camdrafod honedig o ran codi oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer menywod a anwyd yn y 1950au?

## Comisiwn y Cynulliad

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**1** OAQ55226

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y baneri a gaiff eu hedfan ar ystâd y Cynulliad?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**2** OAQ55211

**(e)**

Pa gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y rhai sydd newydd gymhwyso i bleidleisio dros eu hawl i wneud hynny yn etholiad y Senedd ym mis Mai 2021?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**3** OAQ55196

**(e)**

A wnaiff y Comisiyndd ddatganiad am ba gyngor a roddir i staff Comisiwn y Cynulliad mewn perthynas ag atal coronavirus?